ADDODLI YN YR YSBRYD AC YN Y GWIRIONEDD

Llythyr Bugeiliol ar gyfer Teulu Asaph, 23 Gorffennaf 2020

Oddi wrth Esgob Gregory

Rydyn ni wedi cychwyn ar y broses hir o ddychwelyd i addoli. Mae ein heglwysi'n agor unwaith eto, ond nid i fod fel ag yr oedden nhw o'r blaen. Yn y lle cyntaf, chawn ni ddim gwneud fel y mynnon ni wrth fynd yn ôl, ac mae'n rhaid i ni gymryd rhagofalon a gwneud pethau'n iawn. Mae'r feirws yn dal yma, yn llechu'n anweledig yn ein cymunedau, yn eithaf prin mae'n debyg – fe glywais i amcangyfrif o 1 mewn 200,000 o bobl y dydd o'r blaen, ond, gan ei bod yn amhosibl dweud ym mhle mae, mae'n rhaid i ni ystyried y gallai'r feirws hefyd fod yn ein plith wrth i ni gyfarfod â phobl eraill.

Yn bwysicach, rydyn ni wedi darganfod, yn ystod ein habsenoldeb hir, synnwyr o'r newydd o pam ein dod i addoli. Dywedodd rhywun wrthyf y dydd o'r blaen: "Rwy'n colli'r Eglwys yn ofnadwy", ac mae'n rhaid mai rhan o hyn yw'r synnwyr o "harddwch sancteiddrwydd" sy'n dod wrth i ni i fynd i mewn i lawer o adeiladau ein heglwysi. Fodd bynnag, mae'n fwy nag adeilad, mae'n golygu'r bobl. Mae'n haws gweddïo pan mae yna bobl yn gweddïo o'n cwmpas. Ychwanegir at gymundod â Duw – y synnwyr hanfodol o berthynas a'r profiad crefyddol o "galon yn siarad wrth galon"- gan gymundod â'n gilydd, wedi'n bedyddio, fel rydyn ni, i un corff. Rwy'n cofio ffrind i'r teulu yn sôn am ei pherthynas â'i merch ifanc rai blynyddoedd yn ôl. "Mae fel gweld fy nghalon yn cerdded tuag ataf" meddai. O na bydden ni'n gallu teimlo felly wrth i ni ddod at ein gilydd fel chwiorydd a brodyr mewn cynulleidfa – yn bwysicach, dyma beth mae Duw'n ei deimlo wrth i ni fynd ato mewn gweddi.

Felly, wrth i 11 o'r gloch ar fore Sul ddechrau dod yn brysur unwaith eto, y wardeiniaid yn sgleinio'r llestri arian a'r offeiriad yn eu gosod ar yr allor – ar ben yr holl reolau hynny ynghylch cadw pellter cymdeithasol, beth ddylai ein harwain ni wrth ddod yn ôl i'r Eglwys?

Yn gyntaf, addoli yw rhoi i Dduw yr hyn sy'n ddyledus iddo – yn Saesneg, yn llythrennol "worth-ship". Wrth i chi osod y darn olaf o'r jig-so yn ei le, mae yna deimlad fod popeth yn dod at ei gilydd, a dyna a ddylai ddigwydd wrth i ni fynd i mewn i rywle sanctaidd – rydyn ni'n casglu o gwmpas Duw, pawb fel petae nhw'n cymryd eu lle o amgylch yr orsedd, ni, fel y darnau lleiaf o ddwyfol ras, yn cael ein tynnu i gylch cariad hollbresennol Duw. Darllenwch chweched bennod o Lyfr Eseia cyn dod i'r Eglwys a gofyn i'ch llygaid, fel rhai'r proffwyd, gael eu hagor i'r tragwyddol yn ein haddoliad.

Yn ail, nid beth ydych chi'n ei gael ohono sy'n cyfrif, ond beth ydych chi'n ei roi ynddo. Pan fydd rhywun yn dod allan o'r Eglwys ac yn dweud "Wel, wnaeth hynna ddim i mi", dim ond hanner pwynt sydd ganddo. Dylai addoli gydio yn ein henaid a'i gario at orsedd gras, dyna pam y dylen ni bod yn ofalus beth ydyn ni'n ei wneud, ond nid ddiben addoli yw ein diddanu ni'n bersonol "Ymddarostyngwch, gan hynny, dan law gadarn Duw" sydd yn 1 Pedr 5.6, "fel y byddo iddo ef eich dyrchafu pan ddaw'r amser".

Yn drydydd, i'r dieithryn ac i'r ymwelydd, chi yw wyneb Duw yn y cnawd, ac mae ansawdd y croeso y byddwch yn ei roi yn argraff y byddan nhw'n ei gofio fel gwerth ac ystyr eich ffydd. Os mai ymweld ag Eglwys yw eistedd yn y lle iawn, aros ar y dudalen iawn ac ymddwyn yn y ffordd iawn, mae'r neges yn debycach i wasanaeth diflas mewn ysgol na "fy maglau wedi torri a'm traed yn gwbl rydd".

Yn bedwerydd, dyw addoli ddim yn darfod pan fyddwn yn gorffen y litwrgi, yn cau'r llyfr ac yn diffodd y goleuadau wrth i ni adael. Mae'n ffordd o fyw bywyd. Mae fforch diwinio'n crynu wrth iddi gael ei thrawo ac yn hymian nodyn ond mae'n bloeddio canu wrth gyffwrdd y bwrdd, felly, dylai ein haddoliad ni hefyd fod yn cael ei gyffwrdd yn y ffordd ddisgybledig rydyn ni'n cario cariad Duw i'r byd.

O, ryw’n edrych ymlaen gymaint at fod yn ôl a’ch gweld chi i gyd unwaith eto. Bydded i Dduw fendithio ein hanturiaethau newydd mewn sancteiddrwydd.

